GWYDDONIAETH GYNNAR:

Casgliad o sgriniau lliwgar rhyngweithiol, ynghyd â thaflenni gwaith a sgriniau 'creu testun' perthynol, ar agweddau o Brosesau Bywyd a Phethau Byw, Prosesau Ffisegol, Tai a Defnyddiau i gefnogi Gwyddoniaeth Sylfaenol CA1. Y fersiwn Saesneg © Clicsoft 2004 / 2005. Gwyddoniaeth Gynnar © Clicsoft 2006.

MAE GWYDDONIAETH GYNNAR YN CYNNWYS:

Sgriniau lliwgar â chynnwys cwricwlaidd uchel.
Gweithgareddau hunan-gywiro gyda dewis o lefelau lle mae hynny'n briodol.
Sgriniau y gellir eu hargraffu i gofnodi cyrhaeddiad.
Taflenni gwaith a sgriniau 'creu testun' y gellir eu hargraffu neu eu defnyddio'n electronig.

Defnyddir llais go iawn trwy gydol y rhaglen . Dylid annog y disgyblion i ddal y llygoden dros unrhyw destun / graffeg / llecyn poeth â llefarydd er mwyn gwrando ar y gair cyfan / brawddeg gyfan.

Y PECYN A'R CWRICWLWM:

Prosesau Bywyd a Phethau Byw *- gan gynnwys byw ac nid yn fyw, anifeiliaid a phlanhigion, rhannau'r corff, bwyd a diet, tebyg neu ddim yn debyg, planhigion blodeuol a grwpio pethau byw.*

Mae'r pecyn yn cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 Prosesau Bywyd a phethau byw fel y gwelir isod:

PROSESAU BYWYD:
1. *Y gwahaniaethau rhwng pethau byw a phethau nad ydynt yn fyw.*
2. *Bod gan fodau dynol ac anifeiliaid eraill synhwyrau.*
3. *Bod anifeiliaid gan gynnwys bodau dynol yn symud, bod angen bwyd a diod arnynt, eu bod yn tyfu ac atgenhedlu.*

BODAU DYNOL AC ANIFEILIAID ERAILL:
1. *Enwi prif rannau allanol y corff.*
2. *Adnabod nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt.*
3. *Cymharu rhannau allanol cyrff dynol â rhannau allanol anifeiliaid eraill.*
4. *Bod bwyta'r mathau cywir o fwyd yn helpu bodau dynol i gadw'n iach.*
5. *Y gall bodau dynol gynhyrchu babanod, a bod y babanod hyn yn tyfu'n oedolion.*

PLANHIGION GWYRDD FEL ORGANEBAU:
1. *Fod angen goleuni a dŵr ar blanhigion i dyfu'n iach.*
2. *Adnabod deilen, blodyn, coesyn a gwreiddyn planhigyn blodeuol.*
3. *Bod planhigion blodeuol yn cynhyrchu hadau, sydd yn eu tro yn cynhyrchu planhigion newydd.*

PETHAU BYW YN EU HAMGYLCHEDD:

1. *Dysgu am y gwahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid sydd i'w cael yn yr amgylchedd lleol.*
2. *Bod modd gosod anifeiliaid a phlanhigion mewn grwpiau.*

Prosesau Ffisegol – *gan gynnwys* gwthio a thynnu, newid siâp, newid cyfeiriad, pethau sy'n defnyddio trydan, cylchedau syml, goleuni a sain. *Mae'r pecyn yn cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 Prosesau Ffisegol fel y gwelir isod:*

TRYDAN:

1. *Bod llawer o offer pob dydd yn defnyddio trydan.*
2. *Adeiladu ac ymchwilio i gylchedau syml.*
3. *Na fydd dyfeisiau trydanol yn gweithio os bydd toriad yn y gylched.*

GRYMOEDD A MUDIANT:

1. *Disgrifio symudiad pethau cyfarwydd.*
2. *Gall gwthio neu dynnu wneud i rywbeth gyflymu, arafu neu newid cyfeiriad.*
3. *Bod gwthio a thynnu yn enghreifftiau o rymoedd.*
4. *Bod grymoedd yn cael eu defnyddio wrth newid siâp gwrthrych.*

GOLEUNI A SAIN:

1. *Bod goleuni'n dod o amrywiaeth o ffynonellau.*
2. *Mai absenoldeb goleuni yw tywyllwch.*
3. *Bod llawer o fathau o sain a ffynonellau sain.*
4. *Bod seiniau'n teithio am allan o ffynonellau.*
5. *Bod seiniau'n cael eu clywed pan fyddan nhw'n mynd i mewn i'r glust.*

Tai a Defnyddiau *- gan gynnwys adeiladu tai, mathau o dai, tai anifeiliaid a grwpio defnyddiau cyffredin.*

Mae'r pecyn yn cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 Defnyddiau a'u priodweddau ac Ymholiad gwyddonol fel y gwelir isod:

DEFNYDDIAU A'U PRIODWEDDAU - GRWPIO DEFNYDDIAU:

1. *Defnyddio'r synhwyrau i archwilio pethau sy'n debyg ac yn wahanol mewn defnyddiau.*
2. *Didoli defnyddiau yn grwpiau.*
3. *Adnabod ac enwi mathau cyffredin o ddefnydd.*
4. *Dod o hyd i'r ffyrdd y defnyddir amrywiaeth o ddefnyddiau cyffredin.*

***Y PRIF DDEWISLEN* / THE MAIN MENU:**



Defnyddiwch y prif ddewislen i agor y tair is-ddewislen.

Mae sgriniau agoriadol Prosesau Bywyd, Prosesau Ffisegol a Tai a Defnyddiau yn darparu dewis o fotymau sy'n agor y prif weithgareddau. Gellir eu hagor mewn unrhyw drefn.

Mae rhai botymau'r un fath ar y tair is-ddewislen. Rhowch glic ar 'Dewislen' i agor dewislen yr athro. Rhowch glic ar'Taflenni Gwaith' i agor dewislen y taflenni gwaith. Rhowch glic ar y drws agored i fynd allan o'r rhaglen. Rhowch glic ar y saethau i symud rhwng y sgriniau.

Mae'r paneli opsiwn yn caniatáu'r defnyddiwr i ddewis yr opsiynau arferol, parhaol, neu rifau cyn agor yr is-ddewislen o'u dewis.

Cliciwch ar y marciau cwestiwn i gael disgrifiad o'r opsiynau.

Cliciwch ar 'Cyfarwyddiadau' am ragor o wybodaeth ar sut i ddefnyddio'r teitl

YR IS-DDEWISLEN PROSESAU BYWYD –

Mae'r sgrîn agoriadol yn darparu dewis o fotymau sy'n agor y prif weithgareddau. Gellir eu hagor mewn unrhyw drefn.

Rhowch glic ar y goeden am weithgaredd ar fyw neu ddim yn fyw.
Rhowch glic ar yr wyau am weithgaredd ar gylch bywyd llyffant.

Rhowch glic ar y corff am weithgaredd ar rannau'r corff.
Rhowch glic ar yr wyneb am weithgaredd ar nodweddion wyneb.
Rhowch glic ar y llew am weithgaredd ar debyg neu ddim yn debyg.
Rhowch glic ar y *llaw* am weithgaredd *ar y synhwyrau.*
Rhowch glic ar y planhigyn am weithgaredd ar rannau planhigyn.
Rhowch glic ar y gwningen am weithgaredd ar grwpio pethau byw.

YR IS-DDEWISLEN PROSESAU FFISEGOL –

Mae'r sgrîn agoriadol yn darparu dewis o fotymau sy'n agor y prif weithgareddau. Gellir eu hagor mewn unrhyw drefn.

Rhowch glic ar y trên am weithgaredd ar wthio a thynnu.
Rhowch glic ar y pobydd am weithgaredd ar newid siâp.
Rhowch glic ar yr arwydd traffig am weithgaredd ar symud.
Rhowch glic ar y torts am weithgaredd ar rannau torts.
Rhowch glic ar y gylched am weithgaredd ar gylchedau.
Rhowch glic ar yr iâr am weithgaredd ar synau anifeiliaid..
Rhowch glic ar y lamp am weithgaredd ar ffynonellau goleuni.
Rhowch glic ar y tŷ am weithgaredd ar safle'r Haul.

YR IS-DDEWISLEN TAI A DEFNYDDIAU –

Mae'r sgrîn agoriadol yn darparu dewis o fotymau sy'n agor y prif weithgareddau. Gellir eu hagor mewn unrhyw drefn.

Rhowch glic ar y waliau am weithgaredd ar rannau tai.
Rhowch glic ar y tŷ sengl am weithgaredd ar adeiladu tŷ.
Rhowch glic ar y tŷ pâr am weithgaredd ar gartrefi.
Rhowch glic ar y soffa am weithgaredd ar gynnwys y tŷ.
Rhowch glic ar y stabl am weithgaredd ar adeiladau fferm.

Rhowch glic ar y nyth am weithgaredd ar labelu nyth.
Rhowch glic ar y ffenestr am weithgaredd ar ddefnyddiau.
Rhowch glic ar y ddafad am weithgaredd ar drefnu defnyddiau

Y SGRINIAU:

Mae'r sgriniau'n arwain at amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys ymarferion llusgo a gollwng, labelu, didoli a threfnu. Gall nifer o'r ymarferion arwain at waith ymarferol yn y dosbarth.

*Gallwch ddewis yr opsiwn '**rhifau'** neu'r opsiwn **'arferol'** ar y sgrîn agoriadol. Trwy glicio ar y rhif priodol yn yr opsiwn 'rhifau', gallwch ddewis faint o dasgau i'w cwblhau. Rhaid cwblhau pob tasg yn yr opsiwn 'arferol'.*

Rhowch glic ar un o'r rhifau i ddewis faint o dasgau i'w cwblhau.
Rhowch glic ar eicon y tŷ i ddychwelyd at y prif ddewislen.
Rhowch glic ar eicon yr argraffydd i argraffu sgrîn.
Rhowch glic ar eicon y bensel i agor daflen waith neu sgrîn creu testun perthynol.

Mae'r sgrîn yn cofnodi enw'r plentyn, y sgôr a'r amser a gymerir i gwblhau'r gweithgaredd.

Daw 'Da iawn' i fyny ar y sgrîn fel gwobr pe bai'r atebion yn gwbl gywir.

Rhowch glic ar y saeth grwm i ail wneud yr ymarfer i'r gwrthwyneb.

Mae'r gweithgareddau'n hunan-gywiro. Er bod llun yr iâr wedi'i lusgo i'r lle anghywir, mae wedi'i hunan-gywiro i'r lle cywir. Mae wedi pylu ac mae bocs o'i amgylch.

Mae 'Trïa eto!' yn awgrymu y dylai'r defnyddiwr ail wneud yr ymarfer.

TAFLENNI GWAITH A SGRINIAU 'CREU TESTUN':

Mae taflenni gwaith a sgriniau 'creu testun' yn gysylltiedig â *rhai o'r sgriniau. Gellwch eu defnyddio'n electronig neu'u hargraffu. Rhowch glic chwith ar eicon y bensel i agor y daflen waith; clic dde ar y bensel i agor y gweithgaredd 'creu testun'. Mae eicon pensel wedi pylu ar y sgriniau sydd heb daflenni gwaith cysylltiol.*

Y GRAFFIGWAITH:

Mae'r graffigwaith a defnyddir yn lluniau 'vector' syml am dri rheswm:

a) maent yn hawdd i'w adnabod
b) maent yn cefnogi'r rhaglen heb eu bod nhw'n tynnu gormod o sylw at eu hunain.
c) maent angen llai o gof na graffigwaith / lluniau mwy soffistigedig.

CYNHWYSIAD:

Yn gyffredinol, mae'r sgriniau yn syml heb lawer o destun yn ymddangos. Mae hyn yn lleihau'r trafodaethau cychwynnol / arwyddion iaith sydd eu hangen wrth gyflwyno'r sgriniau i blant sydd â nam ar y clyw.

Mae cynnwys graffigol uchel y sgriniau'n helpu i oresgyn rhwystrau iaith. Mae'r rhaglen felly'n addas ar gyfer disgyblion prif lif, anghenion arbennig neu ail iaith.

Gall rhai nad ydynt yn darllen ddal y llygoden dros unrhyw destun / graffeg â llefarydd er mwyn gwrando ar y geiriau.

Nid oes dim yn agwedd hunan-gywiro'r rhaglen sy'n denu sylw at blant sy'n ei chael hi'n anodd deall y cysyniadau sydd dan sylw. Gallant symud ymlaen trwy brofi a methu ar eu cyflymder eu hunain.

Mae'r gweithgareddau'n defnyddio'r dulluiau 'clicio a llusgo a gollwng', sy'n addas ar gyfer sgriniau cyffwrdd yn ogystal â'r rhai cyffredin.

RHEOLAETH ATHRO:

Gall yr athro ddewis yr opsiynau arferol, parhaol neu rifau. Mae dewislen athro ar gyfer y tri phwnc.

SGRINIAU RHYNGWEITHIOL:

Mae'r sgriniau'n addas ar gyfer byrddau rhyngweithiol.

MEWNOSOD:

Mae'r meddalwedd yn mewnosod. Rhowch y CD Rom yn y gyriant CD Rom a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

GOFYNION SYSTEM LEIAF A CHYDRANIAD SGRÎN:

Dylai'r meddalwedd redeg ar Windows 95, 98, 2000, ME, XP neu NT4.
Cydraniad sgrin o 800 X 600 yw'r gorau. Mae angen Direct X i redeg y meddalwedd yn effeithiol.

CYWIRO DIFFYGION:

Dylai'r meddalwedd fewnosod trwy yriant 'D' y cyfrifiadur. Gwiriwch fod y CD Rom yn y gyriant 'D' os nad yw'n llwytho. Agorwch My Computer a chliciwch ddwywaith ar y ffeil Setup os nad yw'n mewnosod.

Cydraniad sgrin o 800 X 600 yw'r gorau. I newid y gosodiad pe bai'r sgrin yn rhy fawr neu'n rhy fach - rhowch glic dde ar y bwrdd gwaith, ewch i Properties, ac yna i Settings.

TRWYDDED:

ClicSoft yw perchennog holl hawliau deallusol y Feddalwedd hon. ©ClicSoft 2006. Gellir trwyddedu'r Feddalwedd ar gyfer ei ddefnyddio trwy brynu trwydded yn uniongyrchol gan ClicSoft neu gan un o adwerthwyr ClicSoft.

1. Ar ôl derbyn y ffi trwydded, fe fydd ClicSoft yn caniatáu trwydded nad yw'n hollgynhwysol ac na ellir ei throsglwyddo, i ddaliwr y drwydded. Fe all daliwr y drwydded osod y Feddalwedd ar nifer penodedig o gyfrifiaduron o fewn canolfan unigol. Fe fydd y rhif hwn yn cael ei bennu gan delerau'r drwydded, gyda:-
***Trwydded unigol** yn caniatáu i'r Feddalwedd gael ei gosod ar gyfrifiadur sengl;*
***Trwydded ychwanegol** yn caniatáu i'r Feddalwedd gael ei gosod ar un cyfrifiadur ychwanegol ar yr un safle;*
***Trwydded 5 defnyddiwr** yn caniatáu i'r Feddalwedd gael ei gosod ar 5 cyfrifiadur ar yr un safle;*
***Trwydded 10 defnyddiwr** yn caniatáu i'r Feddalwedd gael ei gosod ar 10 cyfrifiadur ar yr un safle;*
***Trwydded Safle** yn caniatáu i'r Feddalwedd gael ei gosod ar yr holl gyfrifiaduron ar yr un safle;*
***Trwydded Defnyddiwr Cartref** yn caniatáu i'r Feddalwedd gael ei defnyddio yn y cartref yn unig.*
2. Gall daliwr y drwydded gopïo'r Feddalwedd ar nifer o systemau cyfrifiadurol sydd wedi eu lleoli'n barhaol ar y safle, pan fydd nifer y systemau cyfrifiadurol y gellir copïo'r Feddalwedd arnynt yn cael ei bennu gan eiriad y drwydded fydd ym meddiant daliwr y drwydded.
3. Ni chaiff daliwr y drwydded wneud y Feddalwedd ar gael i unrhyw drydydd parti fel rhodd, benthyciad neu hurio. Fe fyddai gwneud hyn yn torri hawlfraint ac yn weithred anghyfreithlon.

4. Ni chaiff y daliwr trwydded ymgorffori unrhyw ran o'r Feddalwedd i mewn i raglenni eraill a ddatblygir neu a ddefnyddir ar y safle.

GWARANT GYFYNGEDIG A GWADIAD ATEBOLRWYDD:

1. Mae ClicSoft yn gwarantu y bydd y CD sy'n cynnwys y feddalwedd yn rhydd o ddiffygion am gyfnod o drigain (60) diwrnod o'r dyddiad y'i prynwyd, os caiff ei ddefnyddio'n arferol, fel y mae copi o'r anfoneb yn tystio.
2. Nid yw ClicSoft na'r datblygwr yn rhoi gwarant mewn unrhyw fodd, boed wedi ei fynegi neu wedi ei awgrymu, am allu marsiandïol y Feddalwedd na'i haddasrwydd ar gyfer unrhyw bwrpas penodol.
3. Mae ehangder atebolrwydd ClicSoft am unrhyw ddifrod, colli elw neu ewyllys da, neu am unrhyw golled anuniongyrchol neu ôl-ddilynol sy'n codi o ddefnyddio'r Feddalwedd, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) geisiadau sy'n codi yn sgil heintiad firws cyfrifiadurol, colli data a cholli'r gallu i ddefnyddio'r feddalwedd, yn gyfyngedig i bris prynu'r feddalwedd.

CEFNOGAETH DECHNEGOL:

Cysylltwch â ni ar 01248 671093 neu anfonwch e-bost at info@clicsoft.co.uk os cewch chi unrhyw drafferth wrth redeg y feddalwedd yma.

PRISIAU A THRWYDDEDAU:

Gall y prisiau a'r trwyddedau newid heb rybudd. Gwiriwch y manylion ar ein gwefan cyn archebu gennym os gwelwch yn dda.

CYNNYRCH PERTHYNOL:

Mae ***Ar Ben y Ffordd*** *mewn fformatau My World a Textease yn rhoi'r un sylw i'r mwyafrif o feysydd y Cwricwlwm Cenedlaethol ag y mae Gwyddoniaeth Gynnar yn ei wneud.*

Mae ***Ar Ben y Ffordd*** *yn gasgliad o dri theitl -* ***Prosesau Bywyd a Phethau Byw, Prosesau Ffisegol*** *a* ***Thai a Chartrefi****.*

Nid oes gan Ar Ben y Ffordd weithgareddau hunan-gywiro. Er hynny, gellir dileu neu helaethu maint unrhyw wrthrych symudol ar sgrîn, boed y rheiny'n destun neu'n raffig, a gellir ychwanegu graffig / testun newydd o'r dadlenni. Gellir ailenwi'r sgrîn sydd wedi'i theilwrio a'i chadw i'w defnyddio yn y dyfodol.

Cymerwch gip ar ein catalog ar-lein ar www.clicsoft.co.uk am ragor o fanylion am Ar Ben y Ffordd a'i deitlau cydrannol. Cliciwch ar y delweddau yn y catalog ar-lein i weld samplau o'r sgriniau. Cliciwch ar y teitlau i weld y ddogfennaeth.

DYLUNIWYD SGRINIAU GWYDDONIAETH GYNNAR GAN THOMAS PERRY; CRËWYD Y GRAFFIGAU GAN GAYNOR PERRY

CLICSOFT, BWTHYN Y GLYN, NANT Y GARTH, Y FELINHELI, GWYNEDD. LL56 4QB

FFYNHONNELL Y WYBODAETH, GAYNOR PERRY. (Cefndir o dros 30 mlynedd o ddysgu Gwyddoniaeth mewn Ysgolion Uwchradd yn y rhan fwyaf o'i meysydd pwnc, a Bywydeg hyd at Lefel A, yn cynnwys 20 mlynedd fel Arholwraig Lefel A Bywydeg).

PWYSIG: Ni chaniateir copïo na dosbarthu cynnwys y pecyn i unigolyn na chanolfan arall. Fe fyddai gwneud hynny'n mynd yn groes i hawlfraint ac yn anghyfreithlon.

YN OLAF, MAE EICH YMATEB YN BWYSIG I NI. COFIWCH DDWEUD WRTH ERAILL OS YDYCH CHI'N HOFFI EIN CYNNYRCH. COFIWCH DDWEUD WRTHYM NI BETH YDYCH CHI'N EI HOFFI NEU BETH NAD YDYCH YN EIN HOFFI AM EIN CYNNYRCH.